



Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

Low Down

Cryfhau'r Cysylltiadau rhwng Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd

Yn ddiweddar ymunodd Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, â phartneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn Llandrindod i drafod datblygiadau ym maes diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol.

Amlinellodd y Dirprwy Weinidog ei weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru a rhoddodd gyfle i gyfathrebu'n ystyrion drwy weithdai a sesiwn hawl i holi llawn gwybodaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud cymunedau ledled Cymru'n well lleoedd i fyw. Un o'r ffyrdd o gyflawni hyn yw sicrhau bod gwaith o safon i greu lleoedd – sef creu mannau cyhoeddus sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a lles pobl – yn rhan o'r buddsoddiad mewn gwelliannau mewn seilwaith, a datblygu a chynyddu ymgysylltiad â chymunedau. Bu gweithdy'n gyfle i'r aelodau ystyried sut mae egwyddorion creu lle ac ymgysylltu wedi cael ac am gael eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau ym meini prawf grant cyfalaf diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21. I helpu'r awdurdodau lleol i ymgorffori canllawiau ar ddylunio teithiau llesol yn eu cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd, cafodd gweithdy ei gynnwys i roi cyfle i ddysgu am yr arferion gorau yn y maes hwn.

Yn y trydydd gweithdy hoeliwyd sylw ar wella hyfforddiant i gerddwyr o blant yng Nghymru. Gofynnodd y gweithdy i'r ymarferwyr diogelwch ffyrdd helpu i lunio'r adolygiad arfaethedig o'r ddarpariaeth hyfforddiant i gerddwyr o blant, drwy ystyried manteision y model darparu presennol a hybu syniadau arloesol, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol.

Galwodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, ar y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad i gofio'r egwyddorion a drafodwyd ac ystyried sut y gallai eu sefydliadau barhau i gyfrannu at synergedd diogelwch ffyrdd a theithio llesol yng Nghymru yn y dyfodol.

YN Y RHIFYN HWN:

Cysylltu Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd
Dulliau Arloesol i Drwsio Tyllau yn y Ffyrdd
Diweddarau'r Ddeddfwriaeth ar Ffonau Symudol
Rhoi Gwybod i'r DVLA am Dor Diogelwch
Hyb Diogelwch CAV
Ymchwil Plismona Ffyrdd – PACTS
Annog Beicwyr i Ddefnyddio Goleuadau



Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn Treialu Gwaith Trwsio Arloesol ar Dyllau



Mae criwiau trwsio ffyrdd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi bod yn treialu dull newydd o drwsio tyllau yn y ffyrdd, sef dull sy'n defnyddio sylwedd sy'n cynnwys thermoplastig yn hytrach na tharmac traddodiadol.

Mae'r Cyngor yn dweud bod y canlyniadau cychwynnol yn awgrymu y gallai defnyddio'r deunydd newydd fod yn gyflymach, yn lanach ac yn llai costus. O'i gymharu â dulliau traddodiadol, mae'r gwaith atgyweirio yn broses gyflym, does dim angen cloddio a phrin yw'r gwastraff a geir wrth wneud y gwaith.

Dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor, "Yn y treial, cafodd cyfanswm o 215 metr sgwâr ei drwsio mewn rhyw ddau ddiwrnod gan ddefnyddio tua thair tunnell o ddeunydd.

"Pe bai hyn yn cael ei wneud â'r dull traddodiadol o gloddio ac adfer, byddai hynny wedi cymryd rhyw 21 tunnell o darnac a byddai wedi cynhyrchu swm tebyg o wastraff."

Mae cost y deunydd newydd yn uwch na'r tarmac poeth traddodiadol. Ond, yn y treialon yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd yr arwynebedd fesul tunnell tua saith gwaith yn fwy, gan ei wneud yn llai costus i'w ddefnyddio ar y cyfan. Roedd y ffyrdd a'r troedffyrdd a gafodd eu trwsio drwy ddefnyddio'r deunydd newydd ar gael i'w defnyddio o fewn cwta 20-30 munud ar ôl i'r deunydd gael ei osod.

Bellach bydd swyddogion y Cyngor yn parhau i werthuso'r system drwsio newydd yn sgil y treialon llwyddiannus.

Dywedodd y Cynghorydd Ted Latham, Aelod Cabinet Cyngor Castell-nedd Port Talbot dros y Strydlun a Pheirianeg, "Mae'n dda gweld ein bod yn edrych ar ddulliau newydd, cyflymach a llai costus gobeithio o ymdrin â thyllau sy'n broblem fawr i bob awdurdod lleol ac sy'n achosi problemau i'n modurwyr, ein cerddwyr a'n beicwyr."

Moderneiddio'r Ddeddfwriaeth ar Ffonau Symudol

Yn dilyn adroddiad gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Drafnidiaeth, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd bwlch cyfreithiol sy'n galluogi gyrwyr i osgoi cael eu herlyn am ddefnyddio ffôn symudol i fflmio neu i dynnu lluniau yn cael ei gau.

Mae'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Grant Shapps, wedi cyhoeddi y bydd adolygiad brys yn cael ei gynnal i dynhau'r deddfau presennol ar ddefnyddio ffonau symudol gan fodurwyr.

Disgwylir i'r Adran Drafnidiaeth (DfT) ddiwygio'r ddeddfwriaeth erbyn gwanwyn 2020, fel y gellir erlyn unrhyw yrrwr a gaiff ei ddal yn defnyddio ffôn llaw wrth y llyw, p'un a yw'n gwneud galwad, yn tecstio, yn tynnu lluniau, yn defnyddio'r rhyngwyd neu'n sgorlio drwy restr chwarae cerddoriaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Gweinidogion ystyried gwahardd defnyddio ffonau dim dwylo, ond mae'r Adran Drafnidiaeth yn dweud nad oes cynlluniau i gyflwyno mesur o'r fath ar hyn o bryd.

Yn 2018, cafwyd 683 o anafusion ar ffyrdd Prydain – gan gynnwys 29 o farwolaethau a 118 o anafiadau difrifol - mewn gwrthdrawiadau lle'r oedd gyrrwr yn defnyddio ffôn symudol yn ffactor cyfrannol.



Rhoi Gwybod pan fydd Rheolau Diogelwch yn Cael eu Torri

Mae Uned Wybodaeth yr Asiantaeth Safonau Gyrrwr a Cherbydau (DVSA) wedi symleiddio'r broses o roi gwybod am yrrwr cwmni, lori, bws neu goets sydd wedi torri rheolau diogelwch neu amodau eu trwydded yrru neu eu trwydded weithredu.



Mae hyn yn cynnwys:

- torri'r rheolau ar oriau gyrrwr
- gorlwytho cerbydau
- defnyddio cerbydau sy'n anaddas i'r ffordd a heb fod yn ddiogel i'w gyrru
- defnyddio dyfeisiau twyllo allyriadau
- cludo nwyddau peryglus heb ganiatâd
- gyrru lori neu fws sy'n rhy fyglyd

Gallwch roi gwybod yn ddiennw a bydd y DVSA yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir cyn penderfynu ar gwrs gweithredu, a allai gynnwys:

- ymchwiliad i'r achos gan archwilwyr y DVSA
- gofyn ichi roi rhagor o wybodaeth os na wnaethoch eich adroddiad yn ddiennw
- cydweithio ag adrannau ac asiantaethau eraill o'r llywodraeth neu'r heddlu

Cynghorir unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth fel hyn:

- na ddylen nhw ddweud wrth neb eu bod wedi rhoi gwybodaeth i'r DVSA
- na ddylen nhw geisio casglu rhagor o wybodaeth am y trosedd, nac am unrhyw weithgarwch troseddol arall
- na ddylen nhw annog neb i gyflawni trosedd fel eu bod yn sicrhau mwy o dystiolaeth

Os gofynnir am hynny, bydd y DVSA yn rhoi adborth ar y canlyniad pan fydd unrhyw ymchwiliad ac achos troseddol neu achos swyddogol arall wedi dod i ben, neu pan fydd penderfyniad wedi'i wneud os bydd y person/cwmni yn apelio yn erbyn y dyfarniad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/report

Hyb Diogelwch CAV

Nod y rhaglen hon, sydd newydd gael ei datblygu, yw cynyddu ymwybyddiaeth y gymuned diogelwch ffyrdd o gerbydau cysylltiedig ac awtonomaidd (CAV) a rhoi dealltwriaeth o'u cyfraniad tebygol at ddiogelwch ar y ffyrdd.

CAV SAFETY HUB
Connected & Automated Vehicles

Mae'r Hyb yn amlygu'r posibilrwydd y gallai cysylltedd cerbydau'r dyfodol â'u hamgylcheddau ac a'i gilydd wella diogelwch ar y ffyrdd, ac ar yr un pryd leihau tagfeydd ac allyriadau. Er hynny, mae'r rhyngweithio rhwng cerbydau a'r posibilrwydd y bydd pethau'n tynnu sylw'r gyrrwr yn dal yn heriau yn natblygiad CAVs.

Bydd y prosiect hefyd yn hybu gwell dealltwriaeth o'r lefelau cynyddol o dechnoleg sy'n ceisio cynorthwyo'r gyrrwr a'r nodweddion a fydd yn fwyfwy yn gallu gwneud y gwaith gyrru wrth i'r dechnoleg ymledu.

Mae nifer o arbenigwyr a chwmnïau wedi cydweithio ar Raglen Hyb Diogelwch CAV, gan gynnwys Bosch. Dywedodd llefarydd ar ran y cwmni, "Mae lefelau uwch o awtomeiddio yn cael eu datblygu'n gyflym, ond mae angen mwy o waith arnynt i fod yn barod i'r cyhoedd eu defnyddio. Rydym yn falch iawn o gefnogi'r prosiect hwn i helpu i sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o randdeiliaid yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir am y llwybr tuag at ddefnyddio systemau awtomeiddio a sut y gallant sicrhau manteision pendant i ddinasyddion, busnesau a'r gymdeithas ehangach."

Mae'r cyfranwyr arbenigol yn cynnwys RoadSafe, TRL Academy a'r Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd. Gall sefydliadau a hoffai gymryd rhan gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i www.cavsafetyhub.com

Cyfraniad Gwaith Plismona Ffyrdd at Ddiogelwch ar y Ffyrdd



Ym mis Rhagfyr 2019, bydd PACTS (y Cyngor Ymgynghorol Seneddol ar Ddiogelwch Trafnidiaeth) yn cyhoeddi adroddiad ar blismona ffyrdd a'i gyfraniad at ddiogelwch ar y ffyrdd.

Bydd yr ymchwil, a amlinellir isod, yn cael ei gwneud diolch i arian grant gan elusen Diogelwch Ffyrdd y GEM. Bydd PACTS yn sefydlu panel ymgynghorol i helpu'r prosiect ac mae pedwar prif amcan ymchwil wedi'u gosod:

- Coladu ac adolygu tystiolaeth ymchwil i chwilio am berthynas rhwng gwaith gorfodi, ymddygiad gyrwyr ac anafusion ar y ffyrdd
- Coladu ac asesu tueddiadau mewn lefelau gwaith plismona'r ffyrdd a chamau gorfodi
- Archwilio tystiolaeth i chwilio am berthynas rhwng tueddiadau mewn plismona ffyrdd a thueddiadau mewn anafusion ffyrdd, mewn ymddygiad gyrru peryglus ac mewn ffactorau cyfrannol perthnasol
- Ymchwilio i sut, o dan senarios polisi ac adnoddau realistig, y gellid ymgymryd â gwaith plismona ffyrdd a gwaith gorfodi cysylltiedig yn fwy effeithiol

Bydd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r llenyddiaeth allweddol ar y dystiolaeth ar gyfer cysylltiadau rhwng gorfodi, ymddygiad gyrwyr ac anafusion ar y ffyrdd
- Coladu a chyflwyno ystadegau allweddol ar dueddiadau mewn gwaith plismona ffyrdd, ymddygiad gyrwyr ac anafusion
- Cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol

Ni fwriedir i'r adroddiad roi disgrifiad cynhwysfawr o'r materion, y llenyddiaeth neu'r ystadegau; bydd yn canolbwyntio ar y goblygiadau ar gyfer polisiâu. Bydd PACTS yn ceisio rhoi disgrifiad clir a hwylus o'r dystiolaeth, y tueddiadau a'r arferion plismona sy'n dod i'r amlwg.

Wrth osod cyd-destun yr ymchwil, mae PACTS yn nodi nad yw nifer y marwolaethau ar y ffyrdd yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng ers 2010, ac yn y cyfnod hwnnw mae lefelau plismona ar y ffyrdd wedi gostwng yn sylweddol.

Drwy gyfrwng cwestiwn Seneddol yn ddiweddar, datgelwyd bod cyfanswm y swyddogion ffyrdd arbenigol ar draws pob un o'r 43 o heddluoedd wedi gostwng o 5,634 yn 2010 i 4,934 yn 2016, gyda rhai heddluoedd yn gweld toriadau ymysg swyddogion plismona ffyrdd o hyd at 74% rhwng 2015 a 2016. Bydd yr ymchwil yn archwilio'r berthynas rhwng plismona ffyrdd ac anafusion.

Amser Defnyddio Goleuadau, medd Cycling UK

Gan fod y clociau wedi newid yn ddiweddar, mae Cycling UK wedi galw am i bobl sy'n beicio, fel pob defnyddiwr ffordd, ymddwyn yn gyfrifol ac o fewn y gyfraith a sicrhau eu bod yn weladwy liw nos.



Dyweddodd Cherry Allan, Cydlynnydd Ymgyrchoedd a Pholisi Cycling UK, "Mae'n amser cynnau'r golau, nid yn unig er mwyn i feicwyr weld ble maen nhw'n mynd ond hefyd i'w helpu i gael eu gweld gan ddefnyddwyr eraill y ffordd. Mae Cycling UK bob amser yn gofyn i yrwyr fod yn ymwybodol o feicwyr a rhoi digon o le iddyn nhw wrth oddiweddyd, ond yn enwedig nawr bod y daith gymudo bob nos yn digwydd yn y tywyllwch i'r mwyafrif llethol o bobl. "

Er mwyn tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol o ran goleuadau ac adlewyrchyddion ar feiciau, mae Cycling UK wedi creu fideo defnyddiol, sydd ar gael i'w weld [yma](#).

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: www.cyclinguk.org

